

Croeso i Gyfres Ddarlithoedd Busnes Safon Uwch Ysgol Fusnes Aberystwyth



THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2019**

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN AR
GYFER ANSAWDD
Y DYSGU

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2019**

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY

Prisio

- Cynnwys cynorthwyol ar gyfer Cymwysterau Busnes Lefel 3
- Dr Julie Abbott – jum1@aber.ac.uk

Canlyniadau Dysgu

- Deall y termau a'r dulliau a ddefnyddir wrth brisio a'r gwahanol strategaethau prisio
- Deall seiliau costau mewn busnes

Rhai Diffiniadau yn ôl y Geiriaduron...

Pris

- Y maint o arian sy'n ddisgwyliedig, yn ofynnol neu sy'n cael ei roi am rywbeth; rhywbeth sy'n cael ei wario neu ei oddef er mwyn cyrraedd rhyw nod.

Ansawdd

- Safon rhywbeth, wedi'i mesur yn ôl pethau eraill o fath tebyg

Gwerth

- Y parch sy'n haeddiannol i rywbeth; y pwysigrwydd neu'r pwysau a roddir i rywbeth; y gwerth materol neu ariannol; gwerth rhywbeth o'i gymharu â'i bris: am £12.50 mae'r llyfr yn werth da am arian.

Rhai Diffiniadau yn ôl y Geiriaduron...

Pris

•Y maint o arian sy'n ddisgwyliedig, yn ofynnol neu sy'n cael ei wario neu ei oddef er mwyn cyrraedd.

Y maint y mae'n rhaid i'r cwsmer ei dalu neu ei gyfnewid er mwyn cael cynnyrch neu wasanaeth.

Ansawdd

•Safon rhywbeth, wedi'i mesur yn ôl pethau penodol.

Safonau y mae cynnyrch neu wasanaeth yn eu cyrraedd wrth fodloni'r angen.

Gwerth


•Y parch sy'n haeddiannol i rywbeth; y pwynt gwerth materol neu ariannol; gwerth rhywbeth neu werth da am arian.

Yr hyn a gawn am yr hyn rydym yn ei dalu

Costau Sefydlog a Chostau Newidiol

- **Costau Sefydlog**

- Y gwariant ar ffactorau megis cyfalaf, offer, cyfarpar, adeiladau ffatrioedd sy'n aros yn sefydlog yn y tymor byr ac nid oes modd eu newid.
- Mae costau sefydlog yn annibynnol ar yr allbwn yn y tymor byr (hynny yw, hyd yn oed os na wneir dim allbwn yn y tymor byr, fe fydd y costau hyn yn aros yr un peth)



Costau Sefydlog a Chostau Newidiol

- **Costau Newidiol**

- Y costau y mae'n rhaid i gwmnïau eu talu am ddefnyddio amryw ffactorau megis llafur, deunydd craidd, ac yn y blaen, y mae'n hawdd defnyddio mwy neu lai ohonynt yn y tymor byr
- Mae costau newidiol yn amrywio yn unol â lefel yr allbwn yn y tymor byr
- Pe bai'r cwmni yn penderfynu peidio â chynhyrchu unrhyw allbwn, ni fyddai costau newidiol yn cael eu creu




Table 9.1 Examples of fixed and variable costs

Fixed costs

Manufacturing plant and equipment

Office buildings

Cars and other vehicles

Salaries

Professional service fees (e.g. legal, architectural)

Variable costs

Equipment servicing costs

Energy costs

Mileage allowances

Overtime and bonus payments

Professional services fees (e.g. legal) in a business with a strong regulatory regime (e.g. pharmaceuticals)

Gwahanol Ffyrdd o Brisio

- **Dull ar sail costau**
 - y ddamcaniaeth wreiddiol
 - cost yr adnoddau cyfansoddol yw'r elfen bwysicaf.
- **Dulliau a seilir ar gystadleuaeth**
 - y pris ar hyn o bryd - y gyfradd gyfredol
- **Dulliau a seilir ar werth**
 - wedi'u seilio ar ganfyddiadau'r prynwr o'r gwerth.



Profir y cynnwys hwn yn ...

- Arholiad Mynediad Prifysgol Aberystwyth
- Cwblhewch arholiad yn llwyddiannus (gallwch wneud hynny ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn a gallwch ei sefyll yn y pwnc rydych orau ynddo) a derbyn cynnig diamod neu gynnig is ar gyfer yr Ysgol Fusnes.

– Rhagor o fanylion fan hyn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/before-you-apply/scholarships/entrance-scholarships-merit-awards/>

Polisiau Prisio

- **Prisio yn ôl rhestr**
 - dull syml o brisio lle y mae pris sengl yn cael ei osod am gynnyrch neu wasanaeth.
- **Prisio ar golled**
 - yn digwydd lle mae'r pris yn cael ei osod ar lefel is na'r gost wirionedd a dalwyd i'w gynhyrchu.
- **Prisio hyrwyddo**
 - yn digwydd pan fo cwmnïau yn gostwng eu prisiau dros dro o dan y pris safonol am gyfnod er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynnyrch neu'r gwasanaeth er mwyn annog pobl i roi cynnig arnynt, ac i godi ymwybyddiaeth yn y tymor byr.

Polisiau Prisio - parhad



- **Prisio segmentau**

– lle y mae prisiau gwahanol yn cael eu gosod am wahanol grwpiau o gwsmeriaid, e.e. Mae hufen iâ Unilever yn cael ei gynnig ar ffurf gwahanol gynhyrchion hufen iâ ar wahanol lefelau o ansawdd a phris, o'r cynnyrch premiwm uchaf (e.e. hufen iâ Ben & Jerry's sydd ar gael mewn siopau fideo, sinemâu a mannau eraill) i'r cynnyrch rhataf (e.e. yr hufen iâ fanila rhad sydd ar gael mewn archfarchnadoedd).

Polisiau Prasio - parhad

- **Prasio yn canolbwyntio ar y cwsmer**
 - Mae Cross a Dixit (2005) yn awgrymu y gallai cwmnïau fanteisio ar segmentau cwsmeriaid drwy fesur eu canfyddiadau o'r gwerth, mesur y gwerth a grëir, a llunio pecynnau unigryw o gynnyrch a gwasanaethau i fodloni gofynion gwerth pob segment, gan asesu'r effaith y mae hyn yn ei chael ar elw'r cwmni drwy'r amser, a manteisio ar uwch-werthu.



Strategaethau Prasio Cynhyrchion Newydd

Prasio drwy Sgimio'r Farchnad - Pris uwch ar y cychwyn er mwyn ad-dalu'r costau Ymchwil a Datblygu

Cynnyrch newydd arloesol + ychydig o gystadleuaeth + segment 'arloesol' o'r farchnad:



- gosod pris uchel ar gam cynnar yng nghylch oes y cynnyrch
- gosod pris llai wedyn (i farchnad ehangach, pan fydd cystadleuwyr wedi efelychu'r cynnyrch)

Strategaethau Prasio Cynhyrchion Newydd

Prasio i Dreiddio i'r Farchnad - Pris llai i gael mwy o wariant

- Cynnyrch newydd y gellir ei efelychu'n hawdd + marchnad dorfol bosib:
- Gosod pris isel ar gam cynnar yng nghylch oes y cynnyrch (i ennill cyfran fawr o'r farchnad ac i leihau costau drwy ddarbodion maint), dod â'r pris i fyny i lefel debyg i'r cystadleuwyr wedyn

Crynodeb

- Mae'r ddarlith hon wedi'ch helpu i:
 - Deall y termau a'r dulliau a ddefnyddir wrth brisio a'r gwahanol strategaethau prisio
 - Deall seiliau costau mewn busnes



PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY

Diolch



THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2019**

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN AR
GYFER ANSAWDD
Y DYSGU

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2019**

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY